COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONNAU A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 30 TACHWEDD 2017, AM 11:30

Presennol

Y Cynghorydd Mr C Jones OBE – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mr P Clarke | MC Clarke | Mrs J Kiely | Mr G Walter |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DRW Lewis a/ac Mr J Baker

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrew Jolley | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethiol |

10. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim

11. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22 Mehefin a 27 Gorffennaf 2017 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

12. COFLYFR YR OMBWDSMON

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth grynodeb o'r achosion a gyflawnwyd gan Swyddfa'r Ombwdsmon. Roedd Llyfr Achos yr Ombwdsmon yn cael ei gyhoeddi bob chwarter ac roedd yn cynnwys crynodebau o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y chwarter, yn ogystal â detholiad o grynodebau yn ymwneud â phenderfyniadau cyflym a setliadau gwirfoddol.

Nododd y Pwyllgor ei bod yn ymddangos fod cynnydd yn nifer y cwynion o ran iechyd ac yn arbennig i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth fod yr Ombwdsmon yn ymddangos fel pe bai'n canolbwyntio ar y gwasanaeth iechyd ac ar gamweinyddu a bod llai o gwynion yn cael eu hymchwilio.

Dywedodd y Cadeirydd, pe na bai digon o staff i ymchwilio i gwynion yn drylwyr, yna gallai Betsi Cadwaladr fod yn fwy tueddol o setlo, ac y gallai nifer anghymesur y cwynion fod o ganlyniad i'r ffaith y credid y byddai'r Bwrdd Iechyd yn talu.

Dywedodd Aelod fod hwn yn faes lle roedd trigolion yn cael eu hannog i gwyno gyda chynigion "dim ennill, dim ffi".

PENDERFYNWYD Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

13. UN LLAIS CYMRU - PROTOCOL ENGHREIFFTIOL

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth y Protocol Enghreifftiol i Aelodau ar gyfer ymdrin â chwynion lefel isel a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru. Roedd y Protocol Enghreifftiol i fod yn fan cychwyn ar gyfer cynghorau Tref a Chymuned a gallent ychwanegu at neu ddiwygio'r model hwn i ddiwallu eu hanghenion penodol.

Cytunodd yr Aelodau fod hon yn broses dda i'r Cynghorau Tref a Chymuned ei mabwysiadu.

PENDERFYNWYD Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

14. PANEL DYFARNU AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL CYMRU

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2014-15 / 2015-16 i'r Aelodau (ar y cyd).

Roedd Panel Dyfarnu Cymru (APW) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i bennu achosion honedig o dorri rheolau yn erbyn Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig a chyfetholedig cynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chymunedau Cymru, awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol .

Nododd yr Aelodau y data perfformiad a chynnydd a gynhwyswyd yn yr adroddiad a'r gostyngiad yn lefel y gwaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau.

PENDERFYNWYD Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

15. ADOLYGIAD O DDISGRIFIADAU ROLAU'R AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad ar Ddisgrifiadau Rôl Aelodau Etholedig i'w ystyried.

Roedd gan Aelodau Etholedig ystod eang o rolau a chyfrifoldebau y disgwylir iddynt eu cyflawni. Roedd Disgrifiadau Rôl Aelodau Etholedig yn rhoi fframwaith a oedd yn disgrifio'r dibenion, y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau ynghylch amrywiaeth y rolau allweddol yr oeddent yn eu cyflawni.

Eglurodd fod yr holl ddisgrifiadau rôl yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn effeithiol â'r amrywiaeth o rolau a gyflawnir ac yn bodloni gofynion Aelodau Etholedig a Siarter CLILC ar gyfer Datblygu a Chefnogi Aelodau. Byddai unrhyw bryderon a fyddai'n cael eu codi yn cael eu hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

16. STRATEGAETH DYSGU A DATBLYGU'R AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig er gwybodaeth.

Cymeradwywyd Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig 2012-17 gan y Cyngor yn 2013. Roedd yn rhoi fframwaith sy'n nodi strwythur dysgu a datblygu yr holl Aelodau Etholedig o'r adeg y maent yn cael eu hethol ac yn ystod eu tymor yn y swydd. Yn y Cyngor ar 6 Medi 2017, cymeradwywyd y bwriad i gyflwyno cais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau. Un o ofynion y Siarter oedd i Strategaeth Datblygu Aelodau gael ei chymeradwyo gan y Cyngor.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth fod hyn yn arbennig o ddefnyddiol i Aelodau newydd sydd â dim ond ychydig o brofiad neu ddim profiad o gwbl. Pan fyddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol, yna gellid cwrdd â'u hanghenion unigol gyda hyfforddiant parhaus.

Dywedodd un Aelod newydd ei fod o'r farn fod yr hyfforddiant a roddid yn dda ond roedd yn pryderu am amharodrwydd rhai Aelodau i ymgymryd â hyfforddiant i gyflawni eu rolau. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth fod hyn yn parhau i fod yn her a chroesawai'r farn gryfach sef na allai Aelodau eistedd ar rai Pwyllgorau cyn iddynt gael eu hyfforddi. Trefnwyd nifer o sesiynau hyfforddi ar ddiwrnodau gwahanol ar wahanol adegau ac roedd yn siomedig bod rhai aelodau yn dal heb wneud unrhyw hyfforddiant o gwbl.

Roedd gofyniad i Aelodau dderbyn hyfforddiant ar y Gronfa Weithredu Gymunedol, cronfa ar gyfer gwariant yn eu wardiau etholiadol a oedd o fudd i'r boblogaeth leol ac roedd rhai Aelodau wedi methu â mynychu'r hyfforddiant hwn hefyd.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth ei bod yn anodd pan oedd newid mawr yn yr aelodaeth a nifer sylweddol o aelodau di-brofiad.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan CBSP (BCBC) yn gynhwysfawr ac yn atal Aelodau rhag mynd i anawsterau gyda datganiadau o fuddiant ac ati.

PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r Strategaeth oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

17. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

18. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A y Ddeddf: -

Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitem a grybwyllir isod yn breifat gyda'r cyhoedd yn cael ei eithrio o'r cyfarfod, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd uchod.

19. CYMERADWYAETH COFNODION GWAHARDD

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin a 27 Gorffennaf 2017 fel cofnod gwir a chywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30